Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Rosemary Butler AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pierhead Street
Caerdydd

16 Medi 2011

Gwahoddiad agored i bobl Cymru

Annwyl Ddarllenydd,

Ar 20 Medi, bydd pob un o'r 60 o Aelodau Cynulliad yn dychwelyd i'r Senedd ym Mae Caerdydd ar gyfer dechrau tymor newydd.

Yno rydym yn gwneud gwaith fel craffu ar Lywodraeth Cymru, yn ogystal â gwneud deddfau newydd a chraffu arnynt, a chynrychioli buddiannau pobl Cymru.

Wrth i'r flwyddyn wleidyddol newydd ddechrau, bydd gan yr Aelodau bwerau deddfu newydd ar ôl y bleidlais gadarnhaol gan ddwy ran o dair o bobl Cymru yn y refferendwm ym mis Mawrth ar bwerau'r Cynulliad.

Mae hyn yn golygu y bydd mwy o'r deddfau sy'n effeithio arnoch yn uniongyrchol yn awr yn cael eu gwneud gan eich 60 cynrychiolydd etholedig yng Nghymru yn hytrach nag yn San Steffan.

Y Cynulliad sy'n gyfrifol am ddeddfu ar faterion sy'n effeithio ar eich ysbytai, eich ysgolion a'ch amgylchedd, yn ogystal â gweddill yr 20 maes datganoledig.

Rydym hefyd wedi newid y ffordd rydym yn gweithio er mwyn bod yn fwy ymatebol i anghenion pob cymuned ledled Cymru.

Gallwch gyfrannu at waith y Cynulliad mewn sawl ffordd. Yn gyntaf, mae angen i chi wybod pwy yw eich Aelodau Cynulliad. Gallwch gysylltu â nhw drwy wefan y Cynulliad yn www.cynulliadcymru.org neu drwy ysgrifennu at y cyfeiriad a ganlyn:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pierhead Street
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Gall system ddeisebau'r Cynulliad hefyd gael ei defnyddio i ddylanwadu ar fater sydd o bwys i chi. Os ydych wedi casglu 10 llofnod i gefnogi eich deiseb, bydd wedyn yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Deisebau, a fydd wedyn yn penderfynu a ddylid trosglwyddo'r ddeiseb i bwyllgor pwnc er mwyn ystyried y posibilrwydd o ddeddfu ar y mater, neu'n cysylltu â'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru i'w hysbysu am y mater y mae'r ddeiseb yn ei drafod.

Caiff sefydliadau fel elusennau a grwpiau cymunedol gyflwyno deisebau i'r pwyllgor hefyd.

Cafodd deddfau ynghylch codi tâl am fagiau plastig a llwybrau beicio diogel ledled Cymru eu datblygu ar ôl i'r Cynulliad gael deisebau ar y materion hyn.

Rwyf wedi teithio hyd a lled Cymru yn ymweld â sioeau a digwyddiadau'r haf i drafod â phobl yr hyn rydym yn ei wneud a'u hannog i gymryd rhan. Y neges oedd ei bod yn bosibl i unrhyw un yng Nghymru gael effaith uniongyrchol ar y broses ddeddfu, a'r un yw fy neges yn awr.

Cyn dechrau tymor newydd y Cynulliad, felly, ar ran fy nghyd-Aelodau, hoffwn ofyn i chi ddweud wrthym, fel eich cynrychiolwyr etholedig, am y materion sydd o bwys i chi.

Yn gywir

Rosemary Butler AC
Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru